Gwybodaeth bellach ar gyfer Cydlynydd gyda Chymdeithas y Cymod

- Mae Cymdeithas y Cymod yn fudiad gwirfoddol ac elusen sy'n rhan o fudiad heddwch rhyngwladol mae ei haelodau'n gwrthod rhyfel a thrais ar sail eu crefydd. Rydym yn ymgyrchu dros heddwch yn rhyngwladol ac yma yng Nghymru. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cynhyrchu adnoddau ar gyfer addysg, trafod ac ymgyrchu ac yn cyhoeddi cylchlythyr "Cymod" tair gwaith y flwyddyn. Felly mae'n hanfodol fod yr ymgeisydd llwyddiannus yn arddel gwerthoedd y Gymdeithas ac yn awyddus i hyrwyddo'r gwaith drwy gydlynu gwaith gwirfoddolwyr.

- Ni fydd y Cydlynydd yn cael ei gyflogi gan Gymdeithas y Cymod.
- Bydd y cytundeb gyda'r Gymdeithas ar ffurf cytundeb i ddarparu gwasanaethau ac felly yn addas i berson sydd yn hunan cyflogedig.
- Cymraeg yw iaith weithredol y Gymdeithas ac felly mae'n hanfodol fod yr ymgeisydd yn gallu ysgrifennu a chyfathrebu yn rhugl yn y Gymraeg.
- Bydd angen sgiliau rhyngbersonol ardderchog gan yr ymgeisydd i gymell, a chydlynu gwaith gan wirfoddolwyr.
- Bydd angen sgiliau i drefnu digwyddiadau'r Gymdeithas ar lefel genedlaethol
- Mae gan y Gymdeithas y wefan hon sydd angen ei chynnal a chadw ac felly mae angen sgiliau dechnoleg gwybodaeth o safon megis gwybodaeth o HTML, Word, Excel, ac ati.
- Dyma gopi o'r cytundeb bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gael:-

Cytundeb Cyflenwi Gwasanaethau

Mae'r cytundeb hwn rhwng y Cydlynydd a Phwyllgor Gwaith Cymdeithas y Cymod yng Nghymru i gyflenwi'r gwasanaethau a nodir isod i Gymdeithas y Cymod:-

1. Cydlynu trefniadau digwyddiadau'r Gymdeithas, megis yr Wylnos, yr Eisteddfod Genedlaethol, pererindod Epynt ac un neu ddau weithgaredd newydd bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'r ysgrifennydd;
2. Cadw cysylltiad cyson gydag aelodau a'u hannog i gyfrannu (e.e. ysgrifennu llythyrau at eu Haelodau Seneddol neu'r wasg);
3. Cynnal a chadw gwefan y Gymdeithas yn gyfredol;
4. Cydlynu cyhoeddi *Cymod* o leiaf dair gwaith y flwyddyn mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Cyhoeddi;
5. Sefydlu rhestr e-bost o aelodau a chefnogwyr allanol i rannu gwybodaeth yn gyson ac annog gweithgareddau fel llythyru.
6. Cydlynu datganiadau i'r wasg a gwaith cyhoeddusrwydd arall mewn cydweithrediad â'r Ysgrifennydd
7. Cydlynu stondinau gan y Gymdeithas mewn gwyliau a chynadleddau addas, gan gynnwys posteri a thaflenni amserol;
8. Cydlynu cysylltiad gydag eglwysi a chapeli
9. Cefnogi celloedd lleol, yn arbennig rhai newydd sy am sefydlu eu hunain.

Amodau'r cytundeb hwn yw bod y Cydlynydd yn:

1. Talu unrhyw drethi incwm a thaliadau Yswiriant Cenedlaethol ei hun
2. Yn cynnal costau swyddfa ei hun gydag offer megis cyfrifiadur, argraffydd, ffeiliau, papur ac ati.
3. Nid oes unrhyw ddyletswydd ar y Cydlynydd i gyflenwi'r gwasanaethau hyn ei hun. Mae yn ddyletswydd arno/arni i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu cyflenwi i'r

Gymdeithas gan berson (neu bersonau) arall addas i'r gwaith o fewn yr amser penodedig.

4. Mae disgwyl i lwyth gwaith y Cydlynydd gyfateb i hanner diwrnod o waith yr wythnos ar gyfartaledd dros y flwyddyn, gan fod yn hyblyg o ran gweithio mwy o oriau yn ystod adegau prysur.

Bydd Cymdeithas y Cymod yn:

1. Talu swm o £2,500 am gyflenwi'r gwasanaethau uchod i'r Cydlynydd yn flynyddol am ddwy flynedd.
2. Talu costau teithio a llety rhesymol gyda chytundeb blaenorol y Trysorydd .
3. Talu costau postio allan *Cymod* neu ddogfen arall i lawer o bobl gyda chytundeb blaenorol y Trysorydd
4. Talu am argraffu *Cymod* neu unrhyw ddogfen arall sydd i'w gyhoeddi
5. Mae'n bosib gwneud newidiadau i'r cytundeb yma os fydd y ddau barti iddo yn cytuno
6. Ni fydd unrhyw ddyletswydd ar Gymdeithas y Cymod i gyflenwi gwaith i'r Cydlynydd yn y dyfodol ar ôl y ddwy flynedd.